Prifysgol Abertawe
Swansea University

Astudiaeth Achos: The Real Seed Collection Company Ltd

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Rheolaeth Amgylcheddol ar Gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Rheolaeth Amgylcheddol

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Astudiaeth Achos: The Real Seed Collection Company Ltd

Cyflwyniad a Chefndir

Cwmni dielw yw The Real Seed Collection Company Ltd, wedi'i gyfyngu gan warant. Cymerwyd penderfyniad ymwybodol i fabwysiadu'r strwythur yma, gan fod y Cyfarwyddwyr yn credu o safbwynt moesol fod buddiannau'r cwsmeriaid a'r staff yn bwysicach na rhai'r cyfranddalwyr. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i gwmni cyfyngedig weithredu'n bennaf bob amser er lles ei gyfranddalwyr. Mae'r cwmni hwn, a sefydlwyd ym 1997, yn gweithredu ers 2004 ar ryw 2 erw (< 1 hectar) o dir yn Fferm y Brithdir Mawr, Trefdraeth, Sir Benfro, de Cymru. Mae dau weithiwr amser llawn a 4 gweithiwr rhan amser yn rhedeg y 'Real Seed Catalogue'; dyma enw masnachu clwb hadau seiliedig ar aelodaeth a chasgliad preifat o lysiau prin, anghyffredin neu hynafol, a ddetholir yn arbennig i'w tyfu gartref.

Nod y Cwmni

Creu casgliad o lysiau diddorol, blasus, tra dibynadwy nad ydynt yn gymysgryw ar gyfer garddwyr amatur, tyfwyr lotment neu dyddynwyr.

Ffynhonnell: The Real Seed Collection Company Ltd

Ffactorau sy'n symbylu Datblygiad Cynaliadwy

Y nod o sefydlu bywoliaethau gwirioneddol gynaliadwy ar sail gweithio'r tir, nad ydynt yn 'lleingloddio'r pridd' nac yn 'cloddio'r dyfodol', yw sylfaen ymrwymiad y cwmni i ddatblygiad cynaliadwy. Mae hyn wedi helpu'r cwmni i sefydlu troedle unigryw iddo'i hun mewn marchnad sydd dan ddylanwad trwm y cynhyrchwyr hadau mawrion sy'n canolbwyntio ar ffermio diwydiannol. Fel y dywedodd un o sefydlwyr y cwmni, *"Allwn ni ddim cystadlu o ran prisiau. Ond y gwir yw bod ein hadau ni'n egino. Ac mae ein catalog ni'n cael ei ysgrifennu gan bobl sydd yn wir yn tyfu planhigion!"* Mae ymrwymiad y cwmni i ddatblygiad cynaliadwy yn ymestyn ymhellach o lawer na'r gofynion cyfreithiol ac yn cwmpasu ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Er mai ymroddiad personol sefydlwyr y cwmni sy'n bennol gyfrifol am ei berfformiad da o ran cynaladwyedd, maent yn cydnabod hefyd fod ymwybyddiaeth gynyddol o faterion amgylcheddol yn creu cyfleoedd busnes di-rif iddynt. Ond mae'r cwmni'n beirniadu'n hallt y ffordd symbolaidd arwynebol y mae rhai cwmnïau'n ymdrin â materion amgylcheddol.

Mae dyheadau'r cwsmeriaid hefyd yn tanategu ymrwymiad y cwmni i gynaladwyedd. Mae ei restr gynyddol o gwsmeriaid ffyddlon yn tystio i hyn. Yn olaf, mae'r Real Seed Collection Company yn ystyried ei ymrwymiad i gynaladwyedd yn fuddsoddiad da dros y tymor canolig a hir, o ystyried y bygythiadau a ddaw yn sgil y briglif olew a newid hinsawdd. Mae'n credu bod y ffactorau hyn yn debyg o yrru prisiau tanwydd i fyny a ffafrio'r cwmnïau hynny fydd yn gallu gweithredu heb adael olion traed ecolegol mawr.

Yr Arferion

Mae ymrwymiad y cwmni i dyfwyr amatur ac i gynhyrchu bwyd ar raddfa fach yn un dwfn, ac mae'n hyrwyddo dimensiynau cymdeithasol ac economaidd cynaladwyedd yr un mor frwd â'r rhai amgylcheddol. Fel y dywedodd un o'r cyfarwyddwyr sefydlol, *"Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n tynnu adnoddau allan i'w defnyddio a chynyddu eu cyfoeth. Yn ôl y model hwn, mae'r syniad o 'fusnes cynaliadwy' yn ocsimoron."* Mewn gwrthgyferbyniad â hynny mae'r cwmni hwn yn awyddus i weithio gyda'i gwsmeriaid, ei gyflenwyr a'i staff a rhoi grym iddynt. Yr oedd ei statws di-elw'n ffrwyth i'r penderfyniad ymwybodol i greu model busnes fyddai'n fwy cynaliadwy. Mae'r ymrwymiad hwn i bob un o dair colofn cynaladwyedd yn amlwg hefyd yn y ffordd y mae'r cwmni'n ymwneud â'i fusnes craidd, sef y Catalog Hadau Go lawn. Mae'r holl amrywiadau yn y Catalog wedi cael eu dewis ar sail profiad personol o'u perfformiad yn yr ardd ac yn y gegin. Mae'r cwmni'n rhoi prawf ar bopeth - tyfu, cadw hadau a bwyta'r cynnyrch terfynol - cyn cynnig yr hadau.

Mae'r Casgliad Hadau Go lawn yn cildroi'r tueddiad hunanamddiffynol sydd i'w weld ledled diwydiant sy'n fythol hybu patentau a hadau terfynu, trwy annog ei gwsmeriaid yn frwd i gasglu hadau o'u cnydau er mwyn gallu eu bwydo eu hunain yn well yn y dyfodol. Mae pob pecyn o hadau a werthir ganddo (65,000 yn 2006) yn cynnwys cyfarwyddiadau casglu hadau. Yn achos y planhigion mwy anghyffredin, cynigir ryseitiau hefyd.

Mae cyngor ar gael trwy e-bost ynghylch pob agwedd ar gasglu hadau, tyfu'r planhigion, cynaeafu a pharatoi bwyd. Er mwyn mynd y tu arall i ddeddfau'r UE sy'n lleihau'n arw nifer yr amrywiadau y gellir eu gwerthu'n gyfreithlon i'r cyhoedd, mae un geiniog o archeb gyntaf pob cwsmer bob blwyddyn yn talu am aelodaeth o'r Clwb Hadau Go lawn, fel bod y cwmni'n delio ag aelodau o'r clwb yn hytrach nag â'r 'cyhoedd'. Mae'r cwmni'n awyddus i bwysleisio serch hynny mai *"nid tric mo hyn i osgoi torri'r rheolau"*. Mae adborth gan yr aelodau'n cael ei drin o ddifrif gan y cwmni, sy'n priodoli cyfran o ansawdd a llwyddiant y Catalog i'r ymatebion hyn dros y blynyddoedd oddi wrth bobl ar hyd a lled gwledydd Prydain. Mae'r aelodau'n derbyn copi di-dâl o Gylchlythyr blynyddol y cwmni hefyd trwy e-bost.

Yn ogystal mae'r Real Seed Collection Company yn arddel polisi llym o beidio â defnyddio organebau wedi'u haddasu'n enetig (GMO), hadau cymysgryw na thriniaeth gemegol. Mae'n ei ddisgrifio ei hun fel "athronyddol organig" ond heb gael ei ardystio'n organig oherwydd y gost ychwanegol a'r gofynion biwrocrataidd. Mae'r pwyslais ar hadau o ansawdd sy'n cael eu gwerthu un flwyddyn ar ôl cael eu tyfu (yn wahanol i'r norm o 3-5 mlynedd a welir o fewn y diwydiant). Mae hyn yn golygu cyfraddau egino uchel, tyfiant da a pherfformiad da o ran blas y cynnyrch. Mae hyn yn galluogi'r cwmni i gynnig y warant ganlynol:
Os nad ydych chi'n hollol fodlon mewn unrhyw ffordd ar eich hadau, y planhigion, neu flas y cnwd hyd yn oed, fe fyddwn yn falch o anfon hadau newydd ichi, ad-dalu eich arian, neu anfon nodyn credyd - pa un bynnag sydd orau gennych.

Mae'r cwmni'n awyddus hefyd i gyfrannu at gymdeithas ac economi'r ardal lle y mae'n gweithredu. Mae ei weithwyr i gyd yn dod o'r ardal leol, defnyddir y swyddfa bost leol ar gyfer gweithgareddau craidd y busnes, sef postio hadau, ac mae'r cwmni'n cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol megis cyfnewidfeydd hadau, ac yn rhoi hadau i ysgolion yn yr ardal.

Ôl Troed Carbon

Mae'r cwmni wedi cymryd nifer fawr o fesurau i leihau ei ôl troed carbon a mynd i'r afael â'i ymrwymiad i gynaladwyedd amgylcheddol. Maent yn cynnwys comisiynu archwiliad o ôl troed ecolegol y busnes. Defnyddir ynni adnewyddadwy yn y swyddfa a'r storfeydd hadau, ac fe'u cynhesir â phren o ffynonellau sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy. Llwyddodd y cwmni i haneru ei wastraff post yn ddiweddar trwy newid at becynnau llai i ddosbarthu hadau ac annog pobl i'w hail-ddefnyddio. Mae ei gyfrifiadur saith blwydd oed yn gwneud y tro'n berffaith, felly nid oes bwriad i'w adnewyddu.

Canfyddiad mwyaf arwyddocaol yr archwiliad amgylcheddol, serch hynny, oedd yr effaith y mae cludiant yn ei gael ar ôl troed cyffredinol y busnes. Mae'r cwmni wedi arbrofi er enghraifft â gwahanol ffyrdd isel eu heffaith ddinistriol o weithio'r tir, gan gynnwys defnyddio offer llaw yn hytrach na pheiriannau. Ond daethpwyd i'r casgliad mai'r ffactor mwyaf arwyddocaol yw sut mae'r gweithwyr yn teithio'r pedair milltir i Drefdraeth, y dref agosaf - ar gefn beic, yn cerdded, ynteu mewn car - i fynd â phecynnau i'r swyddfa bost. *"Dyma'r daith gar gyfartalog yn y DU, ac mae'n cyfateb i olchi 20 llwyth o ddillad neu fwndelu dwsin o fyrnau o wair â thractor,"* yn ôl yr archwiliad. Mae'r staff wedi dechrau datrys y broblem hon trwy wneud y teithiau hwyaf mewn trên yn lle car, ar ôl darganfod mai dyma'r gwelliant mwyaf y gallent ei wneud o'u holl weithgareddau. Mae eu dynesiad at gynaladwyedd yn gyfannol, ac o ganlyniad credir bod effeithiau pob gweithiwr fel unigolyn, yn ogystal ag effeithiau'r busnes cyfan, yn bwysig. *"Dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn i bobl beidio â cholli golwg ar y prif nod trwy e.e. gweithio'n galed at greu busnesau cynaliadwy, a hedfan wedyn yn eu hamser personol,"* meddai un o'r cyfarwyddwyr. Yn nhermau newid hinsawdd, mae consensws cynyddol o blaid lleihau ein hôl troed amgylcheddol o 90%, a'r unig ffordd y gallwn ni wneud hynny yw trwy leihau ein hangen i deithio.

Cynaladwyedd Economaidd

Yr oedd y cyflogau'n isel ar y cychwyn pan sefydlwyd y busnes, ond maent wedi codi mwy na thair gwaith ei maint wrth i'r lefel cynhyrchiant a'r elw gynyddu. Mae pob un o'r gweithwyr, gan gynnwys y Cyfarwyddwyr, yn derbyn yr un faint. Y cyflog sylfaenol yw hwn, ond mae pawb yn derbyn bonws hefyd ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n dibynnu ar faint y gwerthiant. Nid yw'r cwmni wedi derbyn grantiau na chymorth allanol erioed, ac mae wedi'i ariannu ei hun a gweithredu'n annibynnol ers y cychwyn. Mae'r annibyniaeth hon yn rhan hanfodol o ymagwedd gyffredinol y cwmni tuag at gynaladwyedd. *"Yn fy marn i, cymorthdaliadau yw cloch angladd busnesau bach,"* meddai un o'r gweithwyr, gan esbonio mai'r ymdeimlad yn y cwmni yw bod hyn yn gorfodi cwmnïau i ymhlygu yn ôl anghenion y gwaith papur yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r busnes. Ond ar yr un pryd yr oedd teimlad y byddai cymorth ar adegau pan fydd y cwmni'n cyflogi gweithwyr newydd yn ffordd ddefnyddiol o fynd i'r afael â diffyg sgiliau ag anghenion hyfforddiant sylweddol y cyflogedigion newydd. Un awgrym yw y gellid mân-addasu'r system o fudd-daliadau i adael i gyflogwyr bychain dalu cyflogau llai i weithwyr newydd gan nad ydynt yn gynhyrchiol am y chwe mis cyntaf neu fwy ar ôl cael eu cyflogi. Fe allai'r llywodraeth gyfannu hyn.

Cyfleoedd a Rhwystrau

Yn ogystal â chymorth i hyfforddi cyflogedigion, cafwyd awgrym hefyd bod modd hyrwyddo cynaladwyedd y diwydiant yn gyffredinol, a'r cwmni hwn yn benodol, trwy newidiadau syml. Mynegwyd y farn er enghraifft y gellid mân-addasu'r system gynllunio i roi hwb i dyddynnod o ryw chwe erw (2.5 hectar) sydd â chysylltiadau amaethyddol, gan y gellir dangos bod tyddynnod o faint cyffelyb yn cynhyrchu mwy i bob erw nag unedau mwy o faint. Ar hyn o bryd yr oedd cost tir yn rhwystr sylweddol i'r busnes hwn ac i'r diwydiant yn gyffredinol, ac yr oedd creu categorïau newydd o dir sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynaliadwy a gyflawnir ar y tir yn cael ei weld fel un ffordd o ddatrys y broblem.

Er bod ôl troed ecolegol y cwmni'n fach ar y cyfan, un broblem a enwyd fel rhwystr rhag ei leihau'n fwy oedd yr angen am gydau plastig i gadw'r hadau'n ffres a'u hamddiffyn rhag dŵr. Rhywbeth nad yw rhai bioddiraddadwy yn gallu ei wneud ar hyn o bryd. Ac yn olaf, argymhellwyd y byddai ymgyrch fawr 'Prynwch yn Lleol' yn gyfle pwysig i'r llywodraethau lleol a chenedlaethol gefnogi'r diwydiant gan adeiladu ar sail y don bresennol o ddiddordeb mewn bwydydd lleol.

Ffynhonnell: The Real Seed Collection Company Ltd

Cynnydd a Dysg

Mae'r cwmni hwn yn ddigon bach i allu dibynnu fel arfer ar fecanwaith anffurfiol i fonitro a mesur ei berfformiad o ran cynaladwyedd. Serch hynny mae'n defnyddio mecanweithiau mwy ffurfiol o bryd i'w gilydd, fel y dengys yr archwiliad o'i ôl troed ecolegol. Mae'r cwmni'n cymryd ei gwsmeriaid o ddifrif ac yn defnyddio eu hadborth yn weithgar i fonitro ac addasu ei berfformiad.

Dros y blynyddoedd diwethaf hyn mae'r cwmni wedi tyfu 180% y flwyddyn, ac mae'n gweld bod y farchnad yn ddigon mawr iddo ddal i ffynnu fel hyn yn y dyfodol. Yn y pen draw fe allai hyn arwain at gwmni cynhyrchu hadau mawr fyddai'n gweithredu ar 30 o erwau (2 hectar) ac yn cyflogi deg o weithwyr amser llawn. Ond prisiau tir yw'r prif rwystr rhag gwireddu hyn, ac ar ben hynny nid yw'r cwmni ei hun wedi penderfynu eto a yw'n dymuno tyfu mor fawr.